



**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**  
**Older People's Commissioner for Wales**

## **Llywio'ch Ffordd trwy Wasanaethau Cymdeithasol**

**Daflen Ffeithiau 8: Beth allwch chi ei  
wneud os nad ydych yn cael yr help sydd  
ei angen arnoch?**

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

## Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru  
Adeiladau Cambrian  
Sgwâr Mount Stuart  
Caerdydd  
CF10 5FL

Ffôn: 029 2044 5030  
E-bost: [gofyn@olderpeoplewales.com](mailto:gofyn@olderpeoplewales.com)  
Gwefan: [www.olderpeoplewales.com](http://www.olderpeoplewales.com)  
Trydar: [@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)

# Beth allwch chi ei wneud os nad ydych yn cael yr help sydd ei angen arnoch?

Nid yn unig y mae'r Ddeddf yn disgrifio'r hyn y mae gennych hawl iddo o ran gofal a chymorth (neu gymorth i ofalwyr) ond mae hefyd yn datgan sut y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ymddwyn.

Os ydych chi'n teimlo nad ydych yn cael eich hawliau neu os ydych chi'n teimlo nad yw Awdurdod Lleol wedi gweithredu fel y dylai (er enghraifft, nid ydynt wedi gwrandao ar eich barn, eich dymuniadau a'ch teimladau), gallwch gwyno.

Gallwch ddefnyddio trefn gwyno'r Awdurdod Lleol os nad ydych yn hapus â'r gwasanaeth rydych wedi'i gael gan adran gwasanaethau cymdeithasol eich Awdurdod Lleol. Gallwch ddefnyddio'r drefn gwyno i gwyno am:

- unrhyw wasanaeth cymdeithasol sy'n cael ei ddarparu gan yr Awdurdod Lleol, neu y mae wedi gwrthod ei ddarparu
- gwasanaeth cymdeithasol sy'n cael ei ddarparu gan sefydliad arall ar ran yr Awdurdod Lleol.

Gallwch hefyd gwyno am aelod o staff sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cymdeithasol neu os bu methiant i'ch hysbysu am benderfyniadau sy'n effeithio arnoch.

Efallai y byddwch hefyd am gwyno am benderfyniad a wnaethpwyd gan Awdurdod Lleol mewn perthynas â'r Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol a diwallu eich anghenion. Os yw Awdurdod Lleol wedi penderfynu nad yw eich anghenion yn bodloni'r Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol, dylai ddweud wrthyfch fod gennych hawl i ddefnyddio'r broses gwyno. Os yw'r Awdurdod Lleol yn gwybod efallai y bydd angen help arnoch i gwyno, rhaid iddo benderfynu pa help, os o gwbl, y bydd yn ei roi. Dylai'r Awdurdod Lleol eich hysbysu am y cyngor a chymorth sydd ar gael, a all gynnwys gwasanaethau eiriolaeth. Os nad ydych yn hapus â'r penderfyniad ynglŷn â'r help a ddarperir i chi, gallwch gwyno am y penderfyniad hwnnw hefyd.

Am ragor o wybodaeth am gwyno, gweler Rhan [10](#) o'r Ddeddf. Efallai yr hoffech hefyd edrych ar drefn gwyno'ch Awdurdod Lleol.

